**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**National Assembly for Wales**
Standards of Conduct Committee

Elin Jones AC, y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

12 Hydref 2017

**Adroddiad Blynyddol Grwpiau Trawsbleidiol**

Annwyl Lywydd,

Yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2017 trafododd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yr adroddiad blynyddol ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf fod cadw at reolau grwpiau trawsbleidiol (y rheolau) yn bwysig iawn er mwyn cynnal uniondeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, rydym yn argymell y camau canlynol ar gyfer y grwpiau trawsbleidiol hynny nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau:

**Categori B** *(Grwpiau sy'n cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol ond sy'n hwyr yn gwneud hynny)*: Mae'r Pwyllgor yn argymell anfon nodyn at bob un o'r grwpiau hyn yn eu hatgoffa bod angen cydymffurfio â'r rheolau a chan amlygu'r meysydd lle maent wedi syrthio yn brin o ran yr amserlenni ddisgwyliedig.

**Categori C** *(Grwpiau nad ydynt wedi darparu'r manylion sy'n ofynnol gan y rheolau)*: Mae'r Pwyllgor yn argymell eich bod chi'n ysgrifennu at bob un o'r grwpiau hyn yn gofyn iddynt gydymffurfio â'r gofynion nas bodlonwyd o dan y rheolau o fewn pedair wythnos neu gael eu dileu yn unol â'r rheolau.

Rydym hefyd yn argymell yn fwy cyffredinol y caiff adroddiad blynyddol Grwpiau Trawsbleidiol ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad gan y bydd gwneud hyn yn helpu gyda thryloywder ac rydym yn argymell anfon nodyn bob blwyddyn yn eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSafonau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddSafonau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddStandards@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddStandards
0300 200 6565